



GWYNEDD ASESIAD LLESIANT




ASESIAD LLESIANT GWYNEDD

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol newydd wedi sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio efo'i gilydd i greu gwell dyfodol i bobl Cymru.

Ar gyfer Gwynedd a Môn mae'r ddau Fwrdd wedi dod at ei gilydd i gydweithio, ac mae'n bartneriaeth sy'n cynnwys prif asiantaethau'r ddwy sir.

Mae'r Ddeddf yn gosod allan saith nod llesiant (gweler isod) – ac am sicrhau bod pob Bwrdd a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, a diwylliannol ar draws Cymru.



Mae'r ddeddf hefyd yn sefydlu **egwyddor datblygu gynaliadwy** ar gyfer cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae hyn yn golygu pan fydd penderfyniad yn cael ei wneud bod rhaid ystyried yr effaith y byddai'n ei gael ar bobl fydd yn byw yng Nghymru yn y dyfodol.

Y pum ffactor mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus eu hystyried er mwyn dangos eu bod wedi rhoi'r egwyddor datblygu gynaliadwy ar waith yw:

- **Yr hir dymor**
- **Atal**
- **Integreiddio**
- **Cydweithio**
- **Cynnwys**

Mewn ymgynghoriad gyda'r cyhoedd mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi paratou a chynhyrchu'r asesiad yma ar lesiant Gwynedd. Mae'n edrych ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y sir.

SUT?

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi rhannu'r ddwy sir yn 14 o ardaloedd llai ac wedi cynnal gwaith ymchwil er mwyn deall a dysgu mwy am eu llesiant. Roedd wyth o'r ardaloedd yma yng Ngwynedd.

Unwaith roedd y data wedi ei gasglu a'r gwaith ymchwil wedi ei gwblhau cafodd llyfrynnau unigol eu cynhyrchu ar gyfer pob un o'r wyth ardal. Roedd y llyfrynnau yn edrych ar lesiant yng nghydestun y pedwar prif bennawd yn y Ddeddf – sef Cymdeithasol, Economaidd, Amgylcheddol a Diwylliannol. Mae pennawd ychwanegol wedi ei ychwanegu, sef 'Poblogaeth a laith' gan fod y Bwrdd yn cydnabod pwysigrwydd y thema benodol yma i'r ardal.

Cafodd 16 o sesiynau cyhoeddus eu cynnal, dau ym mhob un o'r ardaloedd yng Ngwynedd, i roi cyfle i drigolion i leisio barn ac hefyd i gasglu mwy o wybodaeth. Gofynnwyd i drigolion os oeddent yn adnabod eu hardal o'r llyfrynnau, beth oedd yn bwysig iddyn nhw, a beth oeddent yn hoffi am eu cymuned yn ogystal â beth fyddent yn hoffi weld yn newid. Gofynnwyd hefyd beth oedd yn bwysig o ran llesiant yr unigolyn a llesiant cymunedol.

Roedd hi'n bwysig i glywed lleisiau amrywiol ar draws y rhanbarth – felly cynhaliwyd sesiynau mewn ysgolion a chyda grwpiau cymunedol. Roedd trafodaethau rhanbarthol hefyd gyda grwpiau anoddach i'w cyrraedd.

Roedd ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol a chafwyd erthyglau yn y wasg leol ac ar wefannau partneriaid er mwyn hyrwyddo'r asesiad ac i annog trigolion i gwblhau holiadur ar-lein ynglŷn â'u hardaloedd nhw.

Mae'r llyfrynnau gwybodaeth ar gyfer pob ardal yn parhau i fod ar gael ar y wefan www.LlesiantGwyneddaMon.org.

BETH YW LLESIANT?

Nid oes un diffiniad pendant o 'lesiant'. Mae trafodaethau cyson ynglŷn â'r ystyr ond mae'n debyg, ei fod yn golygu rhywbeth gwahanol i bawb. Mae llawer yn dweud bod llesiant yn disgrifio'r pethau hynny sy'n effeithio ar ba mor dda yw ein bywydau. Mae'n llesiant personol ni ein hunain yn cynnwys teimladau o hapusrwydd, safon ein bywydau, a'r cysyniad o fyw bywyd i'r eithaf. Mae'n cymunedau a'n diwylliant, ein hiechyd, yr amgylchedd, a'r economi oll yn effeithio ar ba mor dda rydym yn byw ein bywydau. Mae beth sy'n bwysig i lesiant personol hefyd yn debyg o newid fel mae rhywun yn mynd trwy'r gwahanol gyfnodau o fywyd. Mae'n dilyn hefyd fod llesiant personol pobl yn cael effaith ar lesiant eu teuluoedd, y cymunedau a'r ardaloedd y maen nhw yn rhan ohonynt.

Er mwyn ceisio deall beth sy'n bwysig i bobl Gwynedd o ran llesiant gofynnwyd yn union hynny iddynt yn y sesiynau cyhoeddus ac yn yr holiadur ar-lein ddiwedd 2016. Gofynnwyd beth oedd yn braf am fyw yn eu hardal nhw; beth oedd ddim cystal; beth o fewn yr ardal sy'n bwysig i'w llesiant a'u safon bywyd; a beth fyddai pobl yn newid er mwyn gwneud eu hardal yn lle brafiach i fyw. Mae'r ymatebion ar gyfer pob ardal yn llawn ar y wefan ond mae blas isod o'r hyn a ddywedodd pobl y sir wrthym.

BETH SYDD YN BRAF AM FYW YN EICH ARDAL CHI?

- Yr amgylchedd naturiol o'n cwmpas
- Golygfeydd
- Ardal Gymreig a'r gallu i defnyddio'r iaith Gymraeg
- Teimlad da o gymuned ac ysbryd cymdeithasol
- Teimlo fod yr ardal yn ddiogel

BETH SYDD DDIM CYSTAL?

- Diffyg swyddi da o safon uchel
- Trafnidiaeth gyhoeddus
- Pellter o wasanaethau a chyfleusterau a gweithgareddau
- Prisiau tai uchel
- Edrychiad strydoedd

BETH SY'N HYBU EICH LLESIANT AC YN CYFRANNU AT ANSAWDD BYWYD YN EICH ARDAL?

- Cyfleoedd i wneud gweithgareddau yn yr awyr agored
- Ysbryd cymunedol yr ardal
- Teulu / Ffrindiau / Cymdogion
- Amgylchedd naturiol
- Cyfleusterau lleol

BETH Y BYDDECH YN NEWID AM EICH ARDAL I'W WNEUD YN LLE BRAFIACH I FYW?

- Mwy o swyddi gyda chyflogau uwch
- Gwella trafndiaeth gyhoeddus
- Mwy o weithgareddau lleol
- Mwy o gyfleusterau lleol
- Gwella edrychiad y strydoedd



**POBLOGAETH
A IAITH**


PWY YW POBL GWYNEDD?

Mae **122,273** o bobl yn byw yng Ngwynedd.

Mae nifer y bobl sy'n byw yn y sir wedi cynyddu o **14.8%** rhwng 1981 a 2011 – mae hyn yn uwch na'r twf sydd wedi bod ym mhoblogaeth Cymru gyfan (11%) dros yr un cyfnod.

Nid yw'r twf yma wedi bod yr un fath ym mhob grŵp oedran. Mae nifer y bobl dros 80 oed wedi tyfu dros **96.2%** mewn 30 mlynedd, gyda'r twf uchaf yn ardal Porthmadog (128.3%), ac mae ardaloedd Dolgellau a Thywyn wedi gweld twf tebyg (127.2%). Fodd bynnag, mae 10.1% yn llai o blant dan 16 oed yng Ngwynedd nag oedd 30 mlynedd yn ôl. Mae'r ffigwr yma yn debyg i'r gostyngiad sydd wedi bod yn genedlaethol (10.1%), ond mae rhai ardaloedd o Wynedd wedi gweld gostyngiad llawer yn uwch – er enghraifft yn Ffestiniog mae 25.3% yn llai o blant dan 16 oed erbyn hyn nag oedd 30 mlynedd yn ôl.

Mae disgwyl i'r twf yma yn y grŵp oedran hŷn barhau wrth i bobl fyw yn hirach a symud i mewn i'r ardal. Mewn ugain mlynedd mae disgwyl bydd tua **60%** yn rhagor o bobl dros 80 oed yn byw yng Ngwynedd, ond dim ond **2%** fydd y twf yn y boblogaeth rhwng 16 a 64 oed.



**CYNNYDD
96%
OEDRAN
80+**

IAITH

Yn ôl cyfrifiad 2011 roedd **65%** o bobl Gwynedd yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn wedi gostwng dros y degawdau diwethaf o'i gymharu â 76% yn 1981.

Mae'r gostyngiad yma o **11%** yng Ngwynedd yn uwch na lefel Cymru gyfan, ble nad oedd gostyngiad o gwbl yn ystod yr un cyfnod.

Mae'r llyfrynnau ardal yn amlygu gwahaniaeth mawr yn y gallu i siarad Cymraeg o fewn ein hardaloedd – gydag cyfradd uchaf yn **80%** yn ardal Caernarfon yn gostwng i 48% yn ardaloedd Dolgellau / Tywyn.

Mae ffigyrau diweddar yn nodi mai **60%** o bobl Gwynedd sy'n siarad Cymraeg yn ddyddiol, o'i gymharu â 11% yng Nghymru.

Yr hyn mae pobl Gwynedd wedi ddweud wrthym sy'n bwysig iddynt

- Pryderus am y dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal
- Cadw pobl ifanc yn yr ardal a phryder fod llawer yn symud o'r ardal
- Angen cefnogi'r rhai di-Gymraeg i ddysgu'r iaith
- Angen i'r Gymraeg fod yn fwy gweledol yn y gymuned
- Angen gwell ddarpariaeth ar gyfer oedolion sy'n symud i'r ardal i ddysgu'r iaith



AMGYLCHEDDOL



GWASTRAFF AC AILGYLCHU

Mae cyfradd ail-gylchu Gwynedd wedi codi dros y 4 mlynedd diwethaf. Mae **59%** o wastraff trefol sy'n cael ei gasglu o dai, busnesau a chanolfannau ailgylchu yng Ngwynedd yn cael ei aildefnyddio neu ailgylchu. Mae hyn yn cynnwys deunyddiau biowastraff sy'n cael eu compostio.

Mae tipio slei bach yn is yng Ngwynedd na gweddill Cymru - gyda **4.3** achos o dipio i bob 1,000 o'r boblogaeth o gymharu â 10.2.


Mae glendid strydoedd yn cael ei archwilio yn flynyddol gan Cadw Cymru'n Daclus. Mae eu canfyddiadau nhw yn dangos o'r strydoedd archwiliwyd yng Ngwynedd roedd **5%** heb sbwriel na gwastraff (Gradd A), 27% gyda dim mwy na thri darn bach o sbwriel (Gradd B+) a 64% ar y cyfan yn rhydd o sbwriel a gwastraff, gan eithrio rhai eitemau bach (Gradd B).



NEWID YN YR HINSAWDD

Mae data yn dangos bod **79%** o dai yng Ngwynedd yn berchen ar o leiaf un car neu fan, o'i gymharu â 77% yng Nghymru. Mae allyriadau carbon fesul pen o'r boblogaeth ar gyfer Gwynedd yn **7.0kt CO2** sydd ychydig yn uwch na lefel Cymru o **6.6kt CO2**.

Mae newid yn yr hinsawdd yn achosi lefel y môr godi sy'n cyfrannu at y risg o lifogydd yn yr ardal. Yng Ngwynedd mae 6,175 o adeiladau mewn perygl o lifogydd.



AMGYLCHEDD NATURIOIOL

Yng Ngwynedd, mae hawliau tramwy cyhoeddus ar dros **3,690 km**, a'r rhan fwyaf o'r rheiny yn lwybrau cyhoeddus, a 290 km yn rhan o Lwybr Arfordir Cymru. Yn ogystal, mae 105,029 hectar o dir mynediad agored (ble caiff pobl gerdded heb orfod cadw at y llwybr), gyda 14,234 hectar o'r rhain yn goetir sy'n cael ei reoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r tir mynediad agored yma gyfystyr a 41% o arwynebedd Gwynedd gyfan.


Mae ucheldir Gwynedd yn adnodd pwysig o ran rheoli carbon a dŵr yn ogystal â'r bywyd gwylt sydd yno – mae'r tirlun yn un sy'n cael ei gydnabod o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol. Mae Gwynedd yn unigryw oherwydd fod rhan fwyaf o'r tir wedi ei ddynodi yn Barc Cenedlaethol neu yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae'r asedau hyn yn galluogi Gwynedd i daclo'r materion o addasu a lliniaru yn wyneb newid yn yr hinsawdd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi paratoi pecyn ynglŷn ag amgylchedd naturiol yr ardal ac mae hwn ar gael ar-lein gyda'r asesiad hwn. Mae mwy o fanylion am y cynefinoedd pwysig a thirlun amrywiol y sir hefyd i'w cael yn y llyfrynau ardal unigol.

Mae pob traeth nofio o amgylch Gwynedd ond un wedi cael eu cydnabod i fod o safon uchel iawn ac wyth yn draethau baner las.

Yr hyn mae pobl Gwynedd wedi ddweud wrthym sy'n bwysig iddynt

- Angen gwarchod yr amgylchedd
- Angen gwella edrychiad y strydoedd
- Cynyddu cyfraddau ail-gylchu
- Sicrhau nad yw datblygiadau yn amharu / cael effaith ar yr amgylchedd



CYMDEITHASOL



IECHYD

Yng Ngwynedd mae tua **1,400** o gleifion wedi cofrestru fesul meddyg teulu. Mae hyn ychydig yn is na Chymru gyfan sydd ar **1,600**.

Mae amseroedd aros am ambiwlans yn amrywio yn fawr ar draws Gwynedd. Mae ffigyrau lleol mwy manwl yn y llyfrynnau ardal.

Mae disgwyliad oes dyn adeg geni yng Ngwynedd yn **80.0 oed**, tra bod disgwyliad oes merched adeg geni yn **83.5 oed**.

Mae'r bwlch mewn disgwyliad oes rhwng y rhai mwyaf a lleiaf difreintiedig yn sylweddol is yng Ngwynedd na gweddill Cymru. I ferched yng Ngwynedd mae'r bwlch yn 1.4 blwyddyn o'i gymharu â 7.3 blwyddyn ar lefel Gymreig, a 3.1 blwyddyn i ddynion o'i gymharu â 8.9.


Mae **52%** o oedolion Gwynedd dros bwysau neu yn ordew – mae hyn yn is na'r ffigwr ar gyfer Cymru gyfan, sy'n 58%.

Mae **30%** o blant 4-5 oed dros eu pwysau neu yn ordew yn y sir, mae hyn yn uwch na'r ffigwr Gymreig o 26%.

Ffactorau eraill sy'n effeithio ar ein hiechyd yw ysmegu ac yfed alcohol. Mae **22%** o bobl 16 oed neu'n hŷn yn dweud eu bod yn ysmegu, a **42%** o bobl yn yfed mwy na 5 gwydr bach o win, neu tua 3 pheint o gwrw, ar y diwrnod yfed trymaf yr wythnos. Mae'r ddau ffigwr yma yn debyg iawn i weddill Cymru.

Mae cyfradd hunanladdiad yng Ngwynedd yn 14.7 i bob 100,000 o'r boblogaeth y flwyddyn – mae hyn yn uwch na'r gyfradd ar gyfer Cymru, sef 12.2.

Yng Ngwynedd, mae cyfradd feichiogi merched yn eu harddegau sydd o dan 18 oed yn 24 am bob 1,000. Mae hyn yn debyg i ffigyrau Cymru.



22%
O BOBL DROS
16 OED YN
YSMYGU



TROSEDD



Mae cyfradd troseddu Gwynedd fesul 1,000 o'r boblogaeth wedi gostwng o **119 i 92.1** rhwng 2011 a 2015. Dyma'r patrwm ym mhob ardal yng Ngwynedd heblaw am Ddolgellau sydd wedi gweld twf bychan. Mae hyn yn dilyn patrwm Ynys Môn sydd hefyd wedi gweld nifer o droseddau yn dod lawr bob blwyddyn o 109.2 i 83.4 dros yr un cyfnod.

Mae **81%** o bobl yn credu ei bod yn ddiogel i blant chwarae y tu allan yng Ngwynedd. Y ffigwr cyfatebol ar gyfer Cymru yw **64%**.

Roedd **104** o achosion tân bwriadol yng Ngwynedd dros y tair mlynedd diwethaf. Mae'r canran o achosion tân bwriadol o fewn ardaloedd yng Ngwynedd yn amrywio rhwng **9%** a **33%** ar gyfartaledd.

104
ACHOS TÂN
BWRIADOL

CADW MEWN CYSYLLTIAD

Mae'r canran sydd â mynediad i fand-eang yn cynyddu yn flynyddol – erbyn hyn **3%** o eiddo yng Ngwynedd sydd heb fynediad o gwbl. Mae hyn yn welliant sylweddol o'r **20%** yn 2011. Oddeutu **21%** o gartrefi Gwynedd sydd heb gar neu fan ac felly yn dibynnu ar fodd arall o drafnidiaeth. Mae hyn ychydig yn is na ffigwr Cymru o 22.9%.

Mae unigrwydd yn gyflwr sy'n effeithio ar bob oedran, ond mae pobl hŷn yn fwy agored i risg. Yng Nghymru, mae Gwynedd ymysg y siroedd ble mae'r risg o unigrwydd ar ei uchaf. Mae'r pentrefi ble mae risg uwch i'w gweld yn y llyfrynnau ardal.

HELPU'N GILYDD




Mae **10%** o boblogaeth Gwynedd yn rhoi o leiaf un awr yr wythnos o ofal di-dâl. Mae'r ffigwr yma ychydig yn is nag ardal Môn (11.5%) a Chymru (12%).

Mae **283** o bobl Gwynedd yn gwirfoddoli trwy'r **Ganolfan Gwirfoddolwyr**. Mae'r nifer go iawn sy'n gwirfoddoli trwy glybiau chwaraeon a chymdeithasau yn debyg o fod yn llawer iawn uwch ond mae'n anodd iawn mesur hyn oherwydd natur y gweithgareddau.

Yr hyn mae pobl Gwynedd wedi ddweud wrthym sy'n bwysig iddynt

- Teimlo yn ddiogel a lefelau isel o drosedd
- Pryder fod ffigyrau gordewdra yn uchel
- Angen llefydd cyfarfod i gymdeithasu
- Diffyg gwasanaethau a chyfleusterau lleol



ECONOMAIDD

ECONOMI A GWAITH

O dan y mesur ar gyfer pa mor gryf a chynhyrchiol yw economi (sef Gwerth Ychwanegol Crynswth), mae economi Gwynedd yn gryfach nag economi Cymru ac ardaloedd eraill cyfagos fel Ynys Môn, Conwy a Sir Ddinbych. Ond, mae economi'r ardaloedd hyn ac economi Cymru gyfan yn wan o'i gymharu â'r Deyrnas Gyfunol.

Yn gyffredinol ar draws Gwynedd mae mwy o bobl sydd heb gymwysterau yn gweithio yn y galwedigaethau elfennol e.e. gweithio mewn ffatri, glanhau, casglu gwastraff, gweithio ar fferm, nag unrhyw alwedigaeth arall.

Mae **27%** o bobl Gwynedd yn economaidd anweithgar - sef ddim yn gweithio nac yn chwilio am waith am wahanol resymau. Yn ardal Penllyn mae'r ffigwr yma ar ei isaf ar **19%**, tra bo'r ffigwr yn codi i **37%** yn ardal Bangor.

Mae **45%** o bobl y sir sydd â gradd neu debyg yn gweithio yn y maes proffesiynol, mae'r canran hwn yn eithaf tebyg i weddill Cymru.

Mae'r canran o bobl sy'n gweithio yn y gwahanol galwedigaethau yn amrywio o ardal i ardal ar draws y sir. Er enghraifft mae **28%** o bobl Bangor yn gweithio yn y maes proffesiynol o'i gymharu â **9%** yn ardal Penllyn. Ond ym Mhenllyn mae **28%** o bobl yn gweithio yn y crefftau medrus sef yr uchaf yng Ngwynedd.

Nid yw'r canran o bobl Gwynedd sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith wedi gostwng yn is na **1.78%** yn ddiweddar. Mae hyn yn cymharu ag o leiaf **2.15%** o bobl 16-64 oed Cymru sy'n hawlio'r lwfans ar unrhyw adeg.

Mae cyfradd busnesau newydd sy'n cychwyn yng Ngwynedd yn is nag Ynys Môn a Chymru. Mae **62%** o gwmnïau yng Ngwynedd yn aros mewn busnes am dair blynedd neu fwy, ac mae hyn ychydig yn uwch na Chymru sydd ar 60%. Mae cyfradd busnesau sy'n methu hefyd yn is yng Ngwynedd o'i gymharu â gweddill Cymru.

Amaeth yw'r sector mwyaf yng Ngwynedd - mae'n cyfri am **19%** o gyflogwyr o gymharu â 12% ar gyfartaledd ar gyfer gweddill Cymru. Y ddau sector nesaf ato yw manwerthu a llety/gwasanaethau bwyd sydd ar 11% yr un.

Mae **16%** o'r boblogaeth sydd mewn gwaith yn gweithio gartref, sydd mae'n debyg yn adlewyrchu'r nifer sy'n gweithio yn y sector amaeth. Mae **33%** o bobl Gwynedd sy'n gweithio, yn teithio mwy na chwe milltir i'w gwaith - mae'r ffigwr yma yn codi i **45%** yn ardal Ffestiniog ond mae'n is yn ardal Bangor ar **28%**.

Mae canolrif cyflog wythnosol Gwynedd gyfan yn **£347** yr wythnos, mae hyn yn is na'r un ffigwr ar gyfer Cymru gyfan, sef £387 yr wythnos. Yn ardal etholaeth Dwyfor Meirionydd mae'r swm yn gostwng i **£293** yr wythnos - dyma'r isaf ym Mhrydain.

Mae cyflogau merched **32%** yn is na chyflog dynion yng Ngwynedd. Mae'r bwch yma yn debyg i'r bwch ar draws Cymru, ble mae cyflogau merched 33% yn llai na chyflog dynion.

£347

YW CANOLRIF CYFLOG WYTHNOS GWYNEDD



SGILIAU

Mae **63%** o ddisgyblion Gwynedd yn cael pump TGAU gradd **A*** i mewn pynciau sy'n cynnwys Cymraeg, neu Saesneg a Mathemateg, sy'n uwch na pherfformiad Cymru o 58%.

O'r rhai sy'n cael pump TGAU **A*** i **C**, mae bwllch o **36%** rhwng y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r rhai sy'n talu. Mae hyn yn cymharu â 33% ar draws Cymru gyfan.

O'r bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol yng Ngwynedd, mae **1.8%** sydd ddim yn parhau mewn addysg, cyflogaeth nac hyfforddiant. Mae hyn yn is na'r ffigwr Cymreig o **2.8%**.

Mae gan **26%** o boblogaeth y sir gymhwyster gradd neu gyfatebol sy'n debyg i weddill Cymru.



YR ARIAN YN EICH POCED

Mae arian sydd ar gael i'w wario ar ôl trethi a chostau talu am gartref gan bobl yng Ngwynedd, yn **£14,640** y pen y flwyddyn – £662 yn llai na Chymru gyfan.

Mae **14%** o ddisgyblion ysgol gynradd y sir yn hawlio prydau ysgol am ddim. Mae'r canran yma yn amrywio o ardal i ardal gyda'r ystod yn ymestyn o'r 11% i 21% mewn gwahanol ardaloedd. Erbyn i ddisgyblion fynd i'r ysgol uwchradd, mae'r ffigwr yn gostwng i 12.5%.

Mae **21%** o aelwydydd Gwynedd mewn tlodi tanwydd. Mae'r ffigwr yma yn uwch na ffigwr Cymru o 14%.

Mae **8%** o gartrefi Gwynedd heb wres canolog – mae hyn yn sylweddol uwch na'r lefel ar gyfer gweddill Cymru, sef 2%.



TAI

Pris canolrif eiddo yng Ngwynedd yw **£144,000**, sydd ychydig yn uwch na'r pris canolrif eiddo Cymru o £141,000. Canolrif incwm aelwydydd y sir yw **£22,240**, ond mae angen £27,714 i allu prynu tŷ ar bris lefel mynediad i'r farchnad.

Mae hyn yn golygu bod **60%** o deuluoedd Gwynedd wedi eu prisio allan o'r farchnad. Mae'r canran yma yn amrywio o ardal i ardal gyda'r canran uchaf yn ardal Llŷn ble mae **73%** o deuluoedd wedi eu prisio allan o'r farchnad, a'r isaf yn 42% yn ardal Ffestiniog.

Yr hyn mae pobl Gwynedd wedi ddweud wrthym sy'n bwysig iddynt


- Angen swyddi o safon uchel
- Pryder dros yn nifer uchel o bobl leol sydd wedi eu prisio allan o'r farchnad dai lleol
- Cyflogau yn isel a bwlch rhwng cyflogau marched a dynion
- Angen buddsoddi yn yr ardaloedd
- Angen cefnogaeth ar fusnesau bach i lwyddo

60%

O BOBL
LEOL WEDI
PRISIO
ALLAN O'R
FARCHNAD
DAI

CANOLRIF
PRIS Tŷ
£144K

CANOLRIF
INCWM
£22K



DIWYLLIANNOL



CADW'N HEINI

Mae **53%** o ddisgyblion Gwynedd yn ymweld â chanolfannau hamdden yn rheolaidd, sy'n uwch na lefel Cymru o 42%. Mae **52%** o blant Gwynedd hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon tair gwaith neu fwy'r wythnos – mae hyn yn cymharu â 48% ar draws Cymru gyfan.

Mae **37%** o oedolion yn dweud eu bod yn actif am o leiaf **30 munud** ar bump neu fwy achlysur mewn wythnos – mae hyn hefyd yn uwch na'r 31% ar gyfer Cymru. Mae'r canran wedi codi yn raddol dros y blynyddoedd diwethaf.

Yr hyn mae pobl Gwynedd wedi ddweud wrthym sy'n bwysig iddynt

- Gwybodaeth am ddigwyddiadau diwylliannol
- Cymdeithas Gymreig a'r Iaith Gymraeg yn bwysig
- Cadw'n heini a gwneud hynny yn yr amgylchedd naturiol
- Cyfleusterau lleol

AMSER HAMDDEN

Ar gyfartaledd mae pobl Gwynedd yn benthg tua pedwar llyfr fesul pen o'r boblogaeth. O'r llyfrau ar gyfer plant sydd wedi eu benthg, mae **39%** ohonynt yn llyfrau Cymraeg, a 6% o lyfrau sydd wedi eu benthg ar gyfer oedolion yn rhai Cymraeg.

Mae **62%** o oedolion yng Ngwynedd yn adrodd eu bod wedi mynd i ddigwyddiad celfyddydol yn ystod y flwyddyn, a **35%** wedi ymweld ag amgueddfa. Mae ychydig dros hanner pobl y sir wedi ymweld â lleyfdd hanesyddol sy'n debyg i'r ffigwr ar gyfer Môn a gweddill Chymru.

39%
**O LYFRAU
PLANT WEDI EU
BENTHYG YN
RHAI CYMRAEG**



37%
**O OEDOLION YN
CADW'N ACTIF AM
O LEIAF 30 MUNUD
5 GWAITH YR
WYTHNOS**



BETH MAE'R ASESIAD YMA YN DDWEUD WRTHYM AM LESIANT EIN HARDALOEDD?

Man cychwyn yw'r asesiad yma – mae'n rhoi braslun o lesiant yr ardal a bydd yn mynd law yn llaw â'r llyfrynau ardal er mwyn helpu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddeall Gwynedd yn well. Bydd y gwaith yn parhau dros y misoedd a'r blynedd nesaf gyda'r Bwrdd yn gweithio'n agos gyda chymunedau lleol i wir adnabod beth sy'n bwysig i lesiant pobl y sir.

Ar gyfer pum maes yr asesiad mae rhai negeseuon amlwg yn dod allan o'r data, ond mae'r hyn mae pobl Gwynedd wedi ei ddweud hefyd yn ychwanegu gwybodaeth werthfawr.

POBLOGAETH

Mae poblogaeth Gwynedd yn mynd yn hŷn, tra bod niferoedd pobl ifanc yn ein cymunedau yn gostwng. Gyda'r patrwm yma yn debyg o barhau dros yr 20 mlynedd nesaf, bydd demograffeg yr ardal yn newid yn sylweddol a bydd natur ein cymdeithas yn dra gwahanol.

Rhaid i ni ddeall yn well sut y bydd y newid yma yn effeithio llesiant ein cymunedau a'r unigolion yn y cymunedau hynny. Gall y goblygiadau fod yn bellgyrhaeddol, ond yn gadarnhaol yn ogystal â negyddol. Er enghraifft rydym yn gwybod fod pobl hŷn yn fwy tebygol o ddiweddef o unigrwydd, hefyd bydd angen mwy o ofal a chefnogaeth yn y cartref ac yn y gymuned, a bydd angen cynllunio am hyn. Fodd bynnag, gall nifer o'n

pobl hŷn barhau i weithio a chwarae rhan flaenllaw yn ein cymunedau.

Mae angen gwneud gwaith pellach i wir ddeall effaith y newid yma mewn demograffeg ac i sicrhau ein bod ni yn gallu cefnogi ein cymuned i ymateb yn gadarnhaol.

IAITH

Mae'r data ar yr iaith Gymraeg yn dangos yn glir y dirywiad sydd wedi bod dros y 30 mlynedd ddiwethaf. Môn a Gwynedd yw'r ddwy sir ble mae'r Gymraeg ar ei chryfaf ac yn cael ei defnyddio yn ddyddiol gan ran helaeth y boblogaeth. Fodd bynnag, os yw'r dirywiad yn parhau ar yr un raddfa i'r dyfodol gall rhannau o'r sir fod mewn peryg o golli'r iaith i genedlaethau'r dyfodol.

Yn ystod y broses ymgysylltu roedd hi'n glir iawn bod y gostyngiad yn nifer y siaradwyr yn achosi pryder i nifer gyda thrigolion yn awyddus i weld yr iaith yn cael ei gwarchod a'i hyrwyddo, a mwy o gefnogaeth i ddysgu'r iaith yn cael ei ddarparu i bobl sy'n symud i mewn i'r ardal.

Mae'r iaith yn rhan bwysig o'n gwedd cymdeithasol ac yn rhan sylfaenol o'n hunaniaeth ddiwylliannol. Mae angen i ni sicrhau bod trigolion yn gallu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg a'u bod nhw yn gallu cael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau cymunedol yn y Gymraeg.

AMGYLCHEDDOL

Mae amgylchedd naturiol Gwynedd yn bwysig iawn i lesiant. Mae ein hafonydd, llynnoedd, dŵr daear, aberoedd, yr arfordir, a'n traethau yn asedau naturiol pwysig ac yn cyfrannu at lesiant cymunedau lleol a'r boblogaeth yn ehangach.

Rydym yn deall bod newid yn yr hinsawdd yn cynyddu'r risg o lifogydd – mae hyn oherwydd ei fod yn achosi i lefelau'r môr godi ac yn cynyddu nifer y stormydd sy'n cyfrannu at y risg o lifogydd fflach mewndirol.

Bellach llifogydd yw'r math mwyaf cyffredin o drychineb naturiol sy'n effeithio ar ein cartrefi a'n busnesu, ac yn amharu ar weithgaredd dydd i ddydd cymunedau cyfan.

Mae newid yn yr hinsawdd hefyd yn cael effaith ar nifer o feysydd eraill, fel bywyd gwyllt, bioamrywiaeth a chynefin naturiol yr ardal. Rhaid i ni felly, wrth gynllunio ar gyfer lesiant y dyfodol, wneud pob dim y gallwn i warchod a diogelu ein hamgylchedd rhag newid yn yr hinsawdd. Rydych wedi dweud wrthym fod hyn yn bwysig i chi a'i fod yn cynnwys yr elfen o lonyddwch a distawrwydd yn ogystal â sicrhau bod yr amgylchedd naturiol yn cael ei warchod fel ased pwysig ar gyfer gweithgareddau awyr agored i'n cadw ni yn iach a heini.

Rydych am gael gwell mynediad at wasanaethau a mwy o gyfleusterau o fewn eich cymuned. Byddai gwella trafndiaeth gyhoeddus yn rhan bwysig o hyn yn ogystal â gwell llwybrau cyhoeddus – rhaid felly i hyn fod yn rhan o'n cynllunio ar gyfer gwasanaethau.

CYMDEITHASOL

Mae'n amlwg bod ysbryd cymunedol iach yn bodoli yma – gydag wyth ardal Gwynedd yn dweud mor bwysig yw hyn i lesiant. Mae'n bwysig felly ein bod yn meithrin ac yn hybu'r ysbryd yma ac yn creu cymunedau ac ardaloedd llewyrchus a bywiog ond sydd hefyd yn hyderus er mwyn wynebu heriau'r dyfodol.

Un o'r prif heriau fydd gwella iechyd poblogaeth Gwynedd. Wrth ystyried canfyddiadau yr Asesiad Poblogaeth ochr yn ochr â'r data a'r sylwadau rydym wedi casglu mae'n amlwg bod cyflwr iechyd yn cael effaith sylweddol ar lesiant. Mae ein gwybodaeth ni yn dangos nad yw iechyd pobl Gwynedd mor dda ag y gallai fod, ac os na allwn wella'r tueddiad yma yna bydd goblygiadau difrifol i unigolion a chymunedau.

Gyda dros hanner trigolion Gwynedd dros eu pwysau neu yn ordew, a niferoedd uchel yn ysmegu ac yn yfed mwy na'r lefel sy'n cael ei argymhell – bydd pwysau cynyddol ar y gwasanaeth iechyd yn y dyfodol. Bydd angen cynllunio yn ofalus am hyn a rhoi camau ataliol yn eu lle.

Yn ystod y broses ymgysylltu, roedd nifer yn poeni am y lefelau uchel o ordewdra a'r dirywiad mewn iechyd meddwl, yn arbennig felly ymysg pobl ifanc – ac roeddech wedi adnabod yr angen i roi cefnogaeth i bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau y byddai yn cael effaith positif ar iechyd a llesiant yn yr hir dymor. Roedd hyn yn cynnwys annog pobl i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd eu hunain ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau fydd yn atal salwch yn y dyfodol. Rydym angen gallu gwneud hyn yn effeithiol yn ogystal â chefnogi pobl sydd eisoes â phroblemau iechyd.

Mater arall sydd wedi ei adnabod fel un sy'n cael impact ar lesiant yw unigrwydd – gyda Gwynedd ymysg yr ardaloedd sy'n wynebu'r risg uchaf o hyn yng Nghymru. Tra'n bod ni yn cydnabod bod ysbryd cymunedol iach yma, mae'n bwysig bod trigolion yn gallu teimlo yn rhan o'r cymunedau hynny, a'n bod ni yn cydweithio i leihau'r risg o unigrwydd. Mae rhwydweithiau sefydledig a grwpiau gwirfoddol yn ganolog i hyn a rhaid i ni eu galluogi i barhau ac i ffynnu.

ECONOMAIDD

Mae'r economi yn allweddol i lesiant unrhyw gymuned. Mae trigolion wedi dweud wrthym bod yr angen am swyddi o safon yn fater hollbwysig iddyn nhw. Rhaid i hyn felly fod yn flaenoriaeth wrth i ni gynllunio – yn ogystal â chefnogi busnesau newydd a rhai sefydledig i ffynnu.

Mae angen i ni gadw llygad ar sut y bydd ffactorau allanol yn effeithio ar ein heconomi hefyd. Er enghraifft, amaeth yw'r sector mwyaf ac mae angen i ni ystyried sut y bydd ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb

Ewropeaidd yn effeithio ar ein ffermwyr. Bydd materion eraill fel newid yn yr hinsawdd hefyd yn cael effaith ar y sector yma. Rydym angen bod mewn sefyllfa i gefnogi hwn a sectorau eraill i ymateb i newidiadau mewn ffordd gadarnhaol.

Mae ein pobl ifanc yn llwyddo yn yr ysgol gyda'r canran sy'n cael pum gradd A* i C yn y pynciau craidd, sef Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg yn gwella dros y blynyddoedd diwethaf. Rhaid felly sicrhau cyfleoedd o safon uchel, i ganiatáu iddynt weithio a byw yn lleol.

Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad yw'r cyfleoedd yr un fath i bawb. Mae'r bwlch rhwng cyrhaeddiad disgyblion y sir sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai sy'n talu yn uwch na chanran Cymru. Mae cinio ysgol am ddim yn un o'r dangosyddion o dlodi aelwydydd, ac er bod canran amddifadedd materol yn is yng Ngwynedd na gweddill Cymru, rydym yn cydnabod bod tlodi yn bryder ac yn cael effaith sylweddol ar lesiant.

Mae diffyg cyrhaeddiad yn gallu cael effaith ar lesiant unigolion gydol eu hoes ac felly mae angen sicrhau fod pob disgybl yn cael y cyfle i lwyddo. Yn fwy pwysig fyth mae angen ceisio sicrhau fod pob plentyn yn cael profiadau cadarnhaol yn ystod eu plentynodod i'w galluogi i ffynnu a thyfu i fod yn aelodau llawn o'u cymunedau.

Mae'r canran uchel o bobl y sir sydd wedi eu prisio allan o'r farchnad dai yn achosi pryder. Mae llawer yn credu bod yr effaith o brisiau uchel ynghyd â diffyg cyfleoedd o safon yn cyfrannu at y llif o bobl ifanc o'r ardal.

Mae nifer ohonoch wedi dweud wrthym bod teulu, ffrindiau a chymdogion yn bwysig i chi a'ch llesiant ac felly y byddai colli cenhedlaeth iau yn debyg o gael impact negyddol ar gymunedau a llesiant.

DIWYLLIANNOL

Rydym yn cydnabod bod y data rydym wedi ei gasglu o dan y pennawd yma yn

gyfyngedig a bod angen mwy o waith i ddeall a gwerthfawrogi impact gweithgareddau diwylliannol a hamdden ar lesiant.

Rydych wedi dweud bod cael gwybodaeth am ddigwyddiadau diwylliannol yn bwysig, felly hefyd yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. Fel i ni nodi o dan y pennawd 'Cymdeithasol' mae grwpiau a gweithgareddau cymunedol yn cefnogi llesiant unigolion ar draws y sir ac mae llawer o'r rhain yn gysylltiedig â'n treftadaeth a'n diwylliant. Mae angen gwneud mwy o waith i edrych ar y maes yma yn fwy manwl yn y gwahanol ardaloedd o Wynedd i sicrhau bod gan breswylwyr fynediad at ddigwyddiadau fel hyn.

FELLY, BETH YW'R PRIF NEGESEUON?

Er ein bod ni wedi edrych ar bob maes ar wahân o fewn yr asesiad, mae'n amlwg eu bod yn cyd-blethu wrth i ni ystyried llesiant. I weithio tuag at gyflawni amcanion llesiant rhaid i ni edrych ar yr holl faterion gyda'i gilydd.

I grynhoi, dyma'r prif negeseuon:

✓ **YR ANGEN I GYNNAL YSBRYD CYMUNEDOL IACH SYDD MOR BWYSIG I LESIANT**

.....

✓ **PWYSIGRWYDD GWARCHOD YR AMGYLCHEDD NATURIOL**

✓ **DEALL EFFAITH Y
NEWIDIADAU YN
NEMOGRAFFEG EIN
HARDALOEDD**

.....

✓ **GWARCHOD A
HYRWYDDO'R
IAITH GYMRAEG**

.....

✓ **HYBU DEFNYDD
ADNODDAU NATURIOL
I WELLA IECHYD A
LLESIANT YN YR HIR
DYMOR**

.....

✓ **GWELLA CYSYLLTIADAU
TRAFNIDIAETH I
ALLUOGI MYNEDIAD
AT WASANAETHAU A
CHYFLEUSTERAU**

.....

✓ **YR ANGEN AM
SWYDDI O SAFON
UCHEL A CHARTREFI
FFORDDIADWY I BOBL
LEOL**

.....

✓ **EFFAITH TLODI AR
LESIANT**

.....

✓ **SICRHAU CYFLE I BOB
PLENTYN I LWYDDO**

ASESIADAU ERAILL

Mae nifer o asesiadau a strategaethau eraill wedi eu datblygu gan bartneriaid a rhan-ddeiliaid sy'n edrych ar feysydd gwaith sy'n berthnasol i'r Bwrdd a'r gwaith hwn. Bydd y rhain hefyd yn cael eu hystyried ochr yn ochr ar asesiad hwn er mwyn llunio'r Cynllun Llesiant Lleol.

Ymysg y rhain mae Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru sydd wedi edrych ar anghenion gofal a chefnogaeth trigolion ar draws gogledd Cymru. Mae'r asesiad wedi tanlinellu nifer o faterion sy'n ymddangos fel themâu ar lefel ranbarthol. Maen nhw yn cynnwys y cynnydd mewn achosion o salwch meddwl, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc; yr angen am well mynediad at wasanaethau ataliol; taclo unigrwydd; mwy o gefnogaeth i fyw yn y cartref; cefnogaeth i bobl gyda dementia; pwysigrwydd darparu gwasanaeth yn yr iaith o ddewis unigolyn; a'r angen am fwy o weithgareddau hamdden a chymdeithasol i bobl gydag anableddau.

Asesiadau eraill y byddwn yn eu hystyried fydd yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae ac Asesiad Gofal Plant. Mae'r negeseuon yn glir yn y ddau ddarn yma o waith fod cyfleoedd i blant chwarae yn cael effaith sylweddol ar eu llesiant, bod angen mwy o ofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg, a bod fforddiadwyedd gofal plant yn rhwystr i rieni.

BETH YW'R CAMAU NESAF?

Erbyn Ebrill 2018 bydd y Bwrdd yn cyhoeddi Cynllun o Lesiant Lleol ar gyfer ardaloedd Gwynedd ac Ynys Môn. Bydd y cynllun yn amlinellu Amcanion Llesiant y Bwrdd yn ogystal â'r camau y bydd yn eu cymryd i wireddu'r amcanion hynny.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu ar draws y ddwy sir ac mae'r data a barn pobl o fewn yr asesiad yma yn dangos bod anghenion pobl a chymunedau Gwynedd a Môn yn debyg iawn. Fe fydd y Bwrdd felly yn penderfynu ar amcanion llesiant cyffredin ar gyfer y ddwy ardal.

Rydym yn cydnabod bod bylchau yn y wybodaeth sydd wedi ei gasglu hyd yma ac y bydd angen dadansoddiad mwy manwl o bynciau a themâu unigol i ddatblygu'r cynllun llesiant lleol. Rydym hefyd yn cydnabod bod angen craffu pellach ar dueddiadau'r dyfodol fel y gall y Bwrdd gynllunio yn effeithiol. Er mwyn gallu cyhoeddi cynllun cyraeddadwy sy'n cwrdd ag anghenion ein cymunedau bydd y Bwrdd yn edrych ar yr asesiad yma o lesiant lleol ond hefyd yn ystyried asesiadau eraill sydd wedi eu cyhoeddi, yn ogystal â thystiolaeth o beth sydd wedi gweithio mewn ardaloedd eraill.

Bydd y Bwrdd hefyd angen ystyried datblygiadau eraill i'r dyfodol ac effaith hyn ar lesiant pobl Gwynedd a Môn – mae hyn yn cynnwys goblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd a Wylfa Newydd. Bydd yn gwneud hyn ochr yn ochr â gwaith grwpiau eraill megis Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru a'r Bwrdd Cymunedau Diogelach Rhanbarthol.

Wrth gytuno ar y camau i'w cymryd i wella llesiant yng Ngwynedd, bydd y Bwrdd yn sicrhau bod darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn cyd-weithio yn effeithiol ac yn datblygu cynllun gweithredu fydd yn rhoi pwyslais ar weithgareddau ataliol i gael effaith cadarnhaol yn yr hir dymor.

Yn bwysicach, bydd y Bwrdd yn eich cynnwys chi yn y broses a bydd yn awyddus i glywed eich barn am yr hyn fydd yn gweithio o fewn eich cymuned a'ch ardal i wella llesiant.

Felly, yn ystod y misoedd nesaf byddwn yn cynnal nifer o gyfarfodydd a gweithdai gyda phobl sydd â diddordeb mewn bod yn rhan o lunio'r Cynllun Llesiant Lleol ar gyfer Gwynedd er mwyn iddynt allu rhannu eu syniadau a'u barn gyda ni.

AM FWY O WYBODAETH...

Am fwy o wybodaeth ac i weld yr holl ddogfennau sydd ynghlwm â'r asesiad yma ewch i:

WWW.LLESIANTGWYNEDDAMON.ORG
01766 771000

**Gofynnwch am
Reolwr Partneriaeth Gwynedd a Môn**

